**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Gorffennaf 12fed 2021 yn Neuadd Rhoshirwaun**

**Presennol:** Y Cynghorwyr RJ Williams, Wenda Williams, Mari Evans, Gwenllian Hughes-Jones, Emlyn Jones a Geraint Jones

**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr RG Williams a Dafydd Williams
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau
**3)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Fehefin 2021:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**4) Materion yn codi o'r cofnodion**
i)Cae Chwarae: Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Gwenllian Hughes-Jones ar ddatblygiad prosiect y cae chwarae, ac roedd lluniau o'r cae wedi eu cylchredeg cyn y cyfarfod.
Mae arolwg iechyd a diogelwch wedi ei wneud o'r offer ac mae'n ddiogel i agor y cae i'r cyhoedd.
Adroddwyd fod y clo clap ar y giat wedi ei falu a pwysleiswyd fod angen TCC cyn y gellir ei agor. Mae Arfon Roberts wedi ymweld â'r safle ac mae problemau cysylltu gyda'r wifi ac nid oes cyflenwad trydan yn hwylus ar gyfer cysylltu y camerâu. Cynigwyd tair opsiwn ar gyfer camerâu ganddo ac mae angen 4g ar gyfer y dair opsiwn, wedi trafodaeth penderfynwyd derbyn opsiwn ble gyrrir lluniau o'r camera i'w storio ar 'gwmwl', bydd angen talu £4 y mis i Vodaphone am y 4g yn ogystal a thâl am storio ar y 'cwmwl'. Penderfynwyd fod angen dau gamera. Bydd Arfon Roberts yn rhoi pris ar gyfer y camerâu ynghyd a'u gosod. Fe fydd y clerc yn cylchredeg y pris i'r aelodau gan nad oes cyfarfod tan mis Medi.
Adroddwyd fod mainc ynghyd a byrddau picnic wedi eu archebu gan gwmni Huws Gray, ond fod meinciau wedi eu gwneud o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu gan Wynnstay. Gan nad ydi y byrddau picnic a arhebwyd gan Huws Gray wedi cyrraedd ac nad oes taliad wedi ei wneud, penderfynwyd gofyn am bris gan Wynnstay.
**ii)Ymateb Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
a)Twll ger Maes Gwyn, Rhoshirwaun -Caiff y twll sylw pan fydd blaenoriaethau ac adnoddau'n caniatáu.
b) Mae y cais am arwyddion newydd ger Porthor wedi cael ei anfon ymlaen i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yng Nghaernarfon.
c)Bodwrdda: Mae contractwr torri gwair y Cyngor yn yr ardal a chaiff y ffordd yma sylw yn ei drefn. Adroddodd aelodau fod ochrau y ffordd wedi eu barbio ond nid ydi y gwellt yng nghanol y ffordd wedi cael ei dorri.
ch)Arwyddion 'A Frame' ger y Gegin Fawr: Mae'r mater wedi cael ei anfon ymlaen i Gwaith Stryd.
d) Ail Beintio 'Araf': Mae'r gwaith yma eisoes wedi'i nodi a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.
dd)Arwyddion 'Araf' ar y Ffordd ger Eglwys Bodferin a ger Geufron, Aberdaron : Mae y cais am arwyddion wedi cael ei anfon ymlaen i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yng Nghaernarfon.
e) Bodrydd: Mae angen mwy o waith ar y safle a caiff sylw pan mae adnoddau ar gael.
f)Gwaith Barbio Uwchmynydd: Mae'r Archwiliwr Priffyrdd am ymweld â'r safle yn Uwchmynydd ac adrodd yn ôl i'r contractwr os bydd unrhyw ddiffygion. Adroddwyd fod anfodlonrwydd oherwydd safon gwaith barbio gwael trwy yr ardal, gan gynnwys lôn Anelog, lôn Llawenan a lôn Mur Melyn.
ff)Glanhau Ffyrdd: Yn dilyn cwyn fod y 'sweeper wedi gwneud gwaith is-safonol ym mhentref Aberdaron yn ddiweddarr, mae'r mater yma'n cael ei anfon ymlaen i'r Adran Glanhau Strydoedd.

g) Wal y Bont, Aberdaron: Mae'r gŵyn eisoes wedi ei hanfon ymlaen i'r Tîm Rheoli Asedau Strwythurau ac adroddodd yr aelodau fod y gwaith wedi ei wneud.

**h)Canolfan Crud y Werin:** Derbyniwyd llythyr ynghyd a chyfansoddiad newydd y ganolfan gan Llinos V Jones, pennaeth yr ysgol. Hefyd derbyniwyd llythyr gan Sefydliad y Merched Aberdaron yn cwyno am drafferthion agor a chloi y ganolfan pan gynhelir cyfarfodydd. Eglurodd Ms Jones fod oblygiadau iechyd a diogelwch a diogelu data yn golygu ma'r ysgol sydd yn cymeryd cyfrifoldeb am y ganolfan a bod arweiniad wedi ei dderbyn gan yr Adran Addysg. Mae'r cyfansoddiad sydd wedi ei lunio yn mis Mehefin eleni yn nodi fod aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys cynrhychiolaeth o'r ysgol, y Cynghorydd Sir ynghyd a chynrhychiolydd o'r gymuned trwy aelod o'r Cyngor Cymuned. Ar hyn o bryd mae'r Cyng Gwenllian Hughes Jones yn cynrhychioli y Cyngor Cymuned. Nodwyd mai y Cyngor ddylai bendoi aelod i'w cynrhychioli ar y pwyllgor, ond 'does dim gwrthwynebiad i'r Cyng Gwenllian Hughes-Jones gynrhychioli ar hyn o bryd. Nodwyd fod cyfarfod o Sefydliad y Merched i'w gynnal yn mis Medi, a pnenderfynwyd aros i weld os y bydd y drefn o agor a chloi y ganolfan wedi gwella bryd hynny.

**iv)Toiled y Queens a Ffynhonnau dwr:** Derbyniwyd ymateb gan Steffan Jones ond teimlwyd na wnaeth ateb y cwestiwn ynghylch cyfraniad y Cyngor tuag at gynnal y toiled llynedd gan nad oedd y toiled yn agored. Mae y Cyngor yn bwriadu symud y ffynnon ddwr o'r toiled a'i gosod mewn lleoliad arall yn y pentref a gofynnodd am awgrymiadau. Byddai yr aelodau yn hoffi cyfarfod gyda'r swyddog i drafod lleoliad addas.

**v)Trydan yr Eglwys:** Mae taliad o £322.02 wedi ei gymeryd trwy ddebyd uniongyrchol gan Scottish Power am drydan yr eglwys rhwng Mawrth a Mehefin yn seiliedig ar ddarlleniad wedi ei amcangyfrif. Nid yw yr eglwys mewn defnydd ac o ganlyniad nid oes defnydd trydan, mae'r clerc am anfon darlleniad cywir i'r cyflenwr trydan.

**vi)Symud pridd o'r fynwent:** Mae trefniadau ar y gweill i symud y pridd a nodwyd fod angen cerrig mân ger y fynedfa gan fod y safle yn fwdlyd yn ystod y gaeaf.

**vii)Materion yr eglwys:** Derbyniwyd adroddiad o archwiliad y fynwent gan y Cyng RJ Williams. Mae carreg fedd William B Williams, Morannedd yn rhydd ond nid yw yn ddigon rhydd i'w rhoi ar lawr. Nid oes sicrwydd pwy sydd yn gyfrifol am y bedd yma. Mae carreg Hugh Evans, Bryn Eiddon wedi ei rhoi ar lawr.

Nodwyd fod angen glanhau y landerydd a bod rhai llechi yn rhydd. Nodwyd hefyd fod penderfyniad nad oes gwaith i'w wneud ar yr eglwys hyd y bydd arian grant wedi ei sicrhau er mwyn ei hatgyweirio. Hefyd mae angen adnewyddu yr arwyddion sydd yn rhybuddio fod y to yn beryglus ac fod angen i bobl sydd yn ymweld â'r fynwent ddeall eu bod yn gwneud ar eu risg eu hunain.

**5) Gohebiaethau**

**i)Llythyr gan Gyngor Cymuned Pistyll ynghylch problem 'campervans' yn parcio dros nos yn anghyfreithlon gan adael llanast yn maes parcio pen y Nant yn Llithfaen**. Nid oes deddfau mewn lle i alluogi y Cyngor Cymuned i wahardd parcio dros nos. Penderfynwyd cefnogi cais Cyngor Pistyll i roi pwysau ar Gyngor gwynedd i i gyflwyno mesurau fyddai yn cefnogi gwaharddiadau.

**ii)Llythyr gan Gyngor Cymuned Llandygai ynghylch diffyg cyfrathrebu gan Gyngor Gwynedd:** Mae Cyngor Aberdaron yn cefnogi cais Cyngor Llandygai i gael cyfarfod gyda Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drafod y broblem gan fod y pryder yma yn cael ei rannu yn enwedig yn achos yr Adran Gynllunio a'r Adran Llwybrau ar hyn o bryd.

**iii)Llythyr gan Paul Evans ynghylch parcio o flaen Eglwys Sant Hywyn:** Mae Mr Evans yn holi pwy yw perchen y tir dan sylw gan fod sôn y bydd y tir yn cael ei ddynodi ar gyfer parcio anabl yn unig. Penderfynwyd holi yr eglwys.

**6) Cynllunio**

C21/0600/30/DT: Addasu Mynedfa Gerbydol, The Wilds, Aberdaron: Mae'r Cyngor eisioes wedi holi y Cyngor ynghylch amod ar y cais gwreiddiol yn gofyn am gau yr adwy.

C21/0512/30/LL Adeiladu sied i storio offer cynnal a chadw y maes carafanau, Maes Carafannau Bryn Ffynnon, Rhoshirwaun: Dim gwrthwynebiad.

**8)Ariannol**

Derbyniwyd adroddiad ar daliadau a derbyniadau y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol. Nodwyd fod y gwariant a'r derbyniadau yn uchel eleni oherwydd arian grant a chyfraniadau gan bwyllgor y cae chwarae a gwariant sylweddol ar y cae chwarae. Mae gwariant a derbyniadau eraill y Cyngor o fewn y gyllideb a benwyd yn mis Ionawr.

**Taliadau**

Iwan Hughes: £177.41 (cyflog)
Iwan Hughes: £12.99 (costau inc)
HMRC (Paye): £44.20
Canolfan Deunant: £105 (cyfarfodydd)
Scottish Power: £322.06 (trydan yr eglwys)

**Derbyniadau**

SP: £45.66 (wayleave)

**Adolygu cyflog y clerc:** Gadawodd y clerc y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Penderfynwyd codi y cyflog 5% (i'w ddyddio yn ôl i Fedi y 1af). Bydd y cyflog yn £2781.45 y flwyddyn.

**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Problem cwn yn rhydd yn Y Rhiw: Mae'r broblem yn parhau ac mae llawer o faw ci yn yr ardal hefyd. Penderfynwyd anfon at yr heddlu eto.
ii)Baw ci ar bont Rhyd y Cei, Aberdaron: Mae y broblem yn dal i fodoli, penderfynwyd cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.
iii)Clawdd ffordd Bodwrdda: Mae cerrig yn syrthio i'r ffordd o'r clawddd.
iv)Cyffordd gyda y B4413 o gyfeiriad Y Rhiw ym Mhenygroeslon: Mae'n anodd gweld i gyfeiriad Sarn.
v)Mae twll ym mhen gallt Y Rhiw, gyferbyn a Bwlch.
vi)Derbyniwyd cwyn fod unedau gwyliau yn cael eu hadeiladu ym Mryn Meina.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Neuadd Y Rhiw, nos Lun, Medi y 13eg 2021 yn Neuadd Y Rhiw**